Mewn ysgol, yng Nghymru,

Mae’r plant, yn hapus ac yn llon.

Plant cyffrous, a doniol,

Ysgol Terrig yw’r gorau yn y byd.

Mae’r athrawon, yn ein helpu,

Yn y dosbarth, neu ar y buarth mawr.

Mathemateg, a darllen,

Neu coginio, yn y gegin fwd.

**Ysgol, Terrig, croeso i chi.**

**Dewch i weithio a chwarae gyda ni.**

**Dysgu doniau, i'r dyfodol,**

**Dewch gyda ni, mae’n hwyl a sbri!**

Mae'n bwysig i siarad Cymraeg,

Yn yr ysgol, neu adref yn y tŷ.

Er mwyn cadw ein iaith,

Ni yw'r dyfodol, dyna'r ffaith.

Mae pawb yn ffrindiau yn Ysgol Terrig,

Yn cydweithio, pob tro yn estyn llaw.

Pawb yn chwarae ac yn rhannu,

Yma'n Nhreuddyn, fel teulu mawr.

**Ysgol, Terrig, croeso i chi.**

**Dewch i weithio a chwarae gyda ni.**

Dysgu doniau, i'r dyfodol,

Dewch gyda ni, mae’n hwyl a sbri! x2